Adroddiad Gwerthuso Rhaglen Mynd yn Ddigidol Affrica Is-Sahara - Cymru

Crynodeb Gweithredol

Cafodd rhaglen Mynd yn Ddigidol ei sefydlu gan British Council Cymru i gefnogi mentrau cydweithio rhwng artistiaid a sefydliadau celfyddydol yng Nghymru a'u partneriaid rhyngwladol yng ngwledydd Affrica Is-Sahara. Cafodd y rhaglen ar-lein yma ei datblygu mewn ymateb i'r cyfyngiadau ar deithio rhyngwladol yn sgil Covid-19 ac fel cyfrwng i archwilio dulliau o weithio'n rhyngwladol sy'n fwy cynaliadwy yn amgylcheddol. Mae cymal cyntaf y rhaglen, a gynhaliwyd rhwng mis Mawrth 2021 a mis Ionawr 2021, wedi cael ei werthuso gan ymchwilwyr yn Nigeria, De Affrica, Tanzania a Chymru.

Ar ddiwedd y cymal cyntaf canfu'r gwerthuswyr fod y rhaglen yn gyffredinol wedi llwyddo i gyflawni'r amcanion a osodwyd ar ei chyfer. Mae canfyddiadau pobl ynglyn â chydweithio digidol wedi newid; roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn ystyried ei fod yn ffordd effeithiol o weithio gyda phartneriaid. Wrth gydweithio'n ddigidol roedd partneriaid y prosiectau'n teimlo'n ddiogel, yn gydradd, yn gysylltiedig ag eraill ac yn chwilfrydig ac arbrofol. Ond, er bod y gofod digidol yn rhoi cyfle i bartneriaid ddatblygu dealltwriaeth newydd a manteisio ar fentora gan weithwyr proffesiynol mewn gwlad arall, roedd gofyn hefyd am waith paratoi gofalus wrth ddyrannu amser a chyllideb i rymuso'r cyfranogwyr.

Llwyddodd y rhan fwyaf o'r partneriaid i ddatblygu rhwydweithiau newydd, a gwnaeth nifer gryfhau cysylltiadau a oedd yn bodoli'n barod. Yn gyffredinol roedd cyfranogwyr yn ffafrio cyfleoedd rhwydweithio a oedd yn deillio o gyfeirio uniongyrchol neu drwy gyflwyniadau wedi'u hwyluso. Cafodd llawer o'r cyfleoedd rhwydweithio hyn eu hwyluso gan y British

Council, sy'n awgrymu bod rôl werthfawr gan y British Council i'w chwarae o ran creu cysylltiadau.

Gwnaeth y platfformau digidol hwyluso rhwydweithio mewn amryw o ffyrdd. Defnyddiodd rhai partneriaid y platfformau i greu cysylltiadau a dylanwadu, tra gwnaeth eraill eu defnyddio i gryfhau perthnasoedd a oedd yn bodoli'n barod. Er bod y platfformau digidol yn galluogi rhwydweithio a chysylltu, roedd cyfarfod wyneb yn wyneb yn dal i gael ei ystyried yn ffordd werthfawr o ddyfnhau perthnasoedd ac adeiladu cysylltiadau cryf. Roedd y partneriaid yn dueddol o ddefnyddio'r un platfformau ar gyfer rhwydweithio a chyflawni gwaith eu prosiectau. Er bod amrywiaeth eang o blatfformau digidol wedi cael eu defnyddio, roedd llond dwrn o blatfformau adnabyddus yn cael eu ffafrio wrth rwydweithio, sef Zoom, Twitter a Facebook.

Nod rhaglen Mynd yn Ddigidol oedd ei gwneud yn bosib i bobl rannu sgiliau arddangos digidol strategol ac mae tystiolaeth glir yn dangos fod hyder cyfranogwyr wedi tyfu o ran defnyddio cyfryngau cymdeithasol, platfformau cynadledda digidol a marchnata digidol. Hefyd gwelwyd gwelliant sylweddol yn lefel y wybodaeth am breifatrwydd, risg seiber, moeseg ddigidol, e-fasnach a masnacheiddio gwaith creadigol. Mae'n rhesymol casglu fod y cynnydd yma mewn hyder, sgiliau a gwybodaeth yn ganlyniad uniongyrchol i raglen Mynd yn Ddigidol.

Bu'r rhaglen yn help i rai sefydliadau ddenu darpar ffynonellau ariannu newydd. Gwelwyd twf mewn diddordeb mewn dulliau o fasnacheiddio cynnwys a gynhyrchwyd yn ddigidol, a gwelwyd nifer o sefydliadau yn magu hyder wrth ddefnyddio cyfryngau digidol ac yna'n parhau i archwilio cyfleoedd i fasnacheiddio gweithiau a gynhyrchir yn ddigidol. Yn ystod y rhaglen, tyfodd hyder partneriaid wrth ddefnyddio adnoddau digidol i ddatblygu cynulleidfaoedd a chynnyddu amlygrwydd. Mae llawer o sefydliadau'n gwneud defnydd cynyddol o blatfformau cyfryngau digidol i hyrwyddo eu sefydliadau a'u gwaith.

Er bod gweithio'n ddigidol yn sicr wedi cynnig manteision o ran meithrin cysylltiadau newydd, roedd rhai partneriaid, yn enwedig yn Affrica Is-Sahara, yn dal i wynebu rhwystrau. Roedd y rhain yn cynnwys cael gafael ar offer, cysylltedd â'r rhyngrwyd a diffyg cyflenwad trydan dibynadwy. Canfu rhai partneriaid fod gwahaniaethau o ran parthau amser hefyd yn cyfyngu ar weithgareddau prosiectau. Ac fel pawb arall, bu'n rhaid i artistiaid ymdopi ag anawsterau iechyd ac ansicrwydd gwaith yn ystod y pandemig. Wrth ystyried y gwersi a ddysgwyd, byddai rhai partneriaid wedi cynllunio eu prosiectau mewn modd gwahanol. Yn benodol, gallent fod wedi neilltuo mwy o amser ar ddechrau eu prosiectau ar gyfer gwaith paratoi a meithrin cysylltiadau.

Cafodd natur ddigidol rhaglen Mynd yn Ddigidol groeso â breichiau agored gan y rhan fwyaf o'r prosiectau. Ysgrifennodd un partner a oedd yn artist, *"Yn ogystal â chynnig rhyngwyneb technegol ar gyfer rhwydweithio, mae adnoddau a chyfryngau digidol yn trawsnewid ein gofod proffesiynol mewn ffordd hynod"*. Mae adnoddau digidol wedi bod yn gyfrwng i amlygu gwaith creadigol a'i rannu gyda phobl o gwmpas y byd. Er nad oedd cynhyrchu cynnwys a oedd 'yn barod i'w berfformio' yn un o nodau'r rhaglen, cafodd cynnwys ei rannu'n eang mewn sawl achos - gan gyrraedd cynulleidfaoedd o bron i 65,000. Ni fyddai hynny wedi gallu digwydd drwy fentrau wyneb yn wyneb. Ac er bod y drafodaeth am waith byw 'v' gwaith digidol 'v' gwaith hybrid yn debygol o barhau, yn gynyddol mae prosiectau ar-lein a chyfleoedd i gynulleidfaoedd ymgysylltu â'r celfyddydau drwy gyfryngau digidol yn dod yn weithgareddau prif ffrwd sy'n cynnig ffyrdd llwyddiannus o greu gwaith newydd, croesi ffiniau a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd.